# MESUR GWASTRAFF (CYMRU) 2010

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

#### *Adran 20 – Gorchmynion a rheoliadau: gweithdrefnau*

77. Mae is-adran (1) yn darparu'r sefyllfa ddiofyn y bydd unrhyw offeryn statudol a wneir o dan y Mesur hwn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad negyddol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae dau eithriad i hyn, a cheir hwy yn is-adran (2). Y cyntaf yw gorchmynion o dan adran 21(1) o'r Mesur sy'n cychwyn adran 3 o'r Mesur. Nid yw'r gorchmynion cychwyn hyn yn ddarostyngedig i unrhyw un o weithdrefnau'r Cynulliad. Mae is-adran (2) yn darparu hefyd nad yw'r weithdrefn negyddol yn gymwys i'r gorchmynion a'r rheoliadau a restrir yn is-adran (3). Mae'r gorchmynion a'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i weithdrefn penderfyniad cadarnhaol.

78. Mae is-adran (3) yn pennu'r gorchmynion a'r rheoliadau y mae angen eu gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, a'u cymeradwyo ganddo drwy benderfyniad (hynny yw, y gorchmynion a'r rheoliadau sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol). Sef—

- gorchmynion a wneir o dan adran 3(4) – gorchmynion sy'n diwygio'r tabl o dargedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio a nodir yn adran 3(3).
- rheoliadau a wneir o dan yr adran 4 (rheoliadau i osod targedau gwastraff);
- rheoliadau a wneir o dan adran 5(1)(g) (rheoliadau sy'n gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os yw'n methu â chydymffurfio â rheoliadau mewn perthynas â monitro ac archwilio cydymffurfedd â thargedau);
- rheoliadau a wneir o dan adran 6 (rheoliadau ynghylch cosbau am dorri amodau targedau o dan adrannau 3 neu 4 neu am dorri amodau gofynion monitro ac archwilio o dan adran 5);
- rheoliadau a wneir o dan adran 9 (rheoliadau sy'n gwahardd gollwng gwastraff ar safle tirlenwi) a rheoliadau a wneir o dan adran 14 (rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer sancsiynau sifil mewn cysylltiad â chynlluniau rheoli gwastraff safle).

79. Mae is-adran (4) yn darparu, pan fo rheoliadau yn gwneud darpariaeth y caniateir ei gwneud drwy orchymyn, y bydd y weithdrefn a fyddai'n gymwys i'r gorchymyn o dan yr adran hon yn gymwys i'r rheoliadau. Yn yr un modd, o dan is-adran (5), pan fo gorchymyn yn gwneud darpariaeth y caniateir ei gwneud drwy reoliadau, bydd y weithdrefn a fyddai'n gymwys i'r rheoliadau o dan yr adran hon yn gymwys i'r gorchymyn. Mae hyn yn sicrhau, pan wneir darpariaethau o dan wahanol adrannau o'r Mesur mewn offeryn statudol unigol, bod gweithdrefn y Cynulliad sy'n gymwys i'r offeryn hwnnw yn glir.